

Cytûn

Eglwysi Ynghyd
yng Nghymru
Churches Together
in Wales

Cylchlythyr Cytûn ~ Haf 2016

Os byddwch yn codi copi o'r cylchlythyr hwn, Cylchlythyr yr haf, ym mhabell Cytûn yn y Sioe Frenhinol neu'r Eisteddfod Genedlaethol, fe hoffem i chi fwynhau cynhesrwydd ein croeso.

I'r rhai ohonoch sy'n ei dderbyn drwy ein gohebiaeth neu drwy eglwysi lleol Cytûn, gallwch fod yn sicr o'n gweddiâu a'n cefnogaeth. Cyflwynir y cylchlythyr neilltuol hwn yn union ar ôl Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cytûn ac ar anterth gwaith y sefydliad wrth baratoi i gynorthwyo'r eglwysi dystiolaethu'n effeithiol yn ein tri digwyddiad cenedlaethol pwysig: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Sioe Amaethyddol Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Bu Cytûn yn eithriadol o brysur ym maes derbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches gan weithio drwy Bartneriaeth Strategol Mewnffudo Cymru. Cafodd Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn a Chadeirydd y Bartneriaeth, gyfle i fynychu sawl cyfarfod cyhoeddus ar hyd a lled Cymru. Bu'r eglwysi yn hynod o weithgar yn ceisio cynnig cefnogaeth i rai o bobl mwyaf bregus ein byd.

Bu Cytûn hefyd yn weithgar yn cydweithio â Llywodraeth Cymru yn trefnu gwasanaethau a digwyddiadau i goffau Brwydr y Somme.



Bwrlwm y Beibl Byw yn Eisteddfod yr Urdd, Sir y Fflint. A chriw yn ymlacio yng Nghorlan Cytûn ar y maes.



Eglwys a Chymdeithas

Mae Cytûn yn gyfrwng cyfathrebu rhwng ein cynrychiolwyr etholedig a'r holl enwadau a mudiadau sy'n aelodau gyda ni. Roedd gennym gynrychiolaeth dda, ar y cyd â chrefyddau eraill, pan agorwyd y pumed Cynulliad Cenedlaethol fis Mehefin (gweler y llun). Roedd hyn yn dilyn ein mewnbwn i'r ymgyrch etholiadol, yn cynnwys dau fideo yn ymdrin â nifer o faterion llog yr etholiad (a baratowyd gan Uned Fideo Byddin yr Iachawdwriaeth); papurau briffio am saith maes polisi (a baratowyd gan gyfranwyr o nifer o'n haelodau mewn partneriaeth gyda Thim Materion Cyhoeddus y Bedyddwyr, y Methodistiaid a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig); cefnogi cyfarfodydd cyhoeddus lleol gydag ymgeiswyr (yn cynnwys sesiynau hyfforddi ar y cyd â TCC a Citizens Cymru); a gwefan etholiadol gynhwysfawr. Buom mewn cysylltiad â phob Aelod Cynulliad a etholwyd am y tro cyntaf ac â phob aelod o Lywodraeth newydd Cymru.

Cyn bod amser i droi, fe ddaeth y Refferendwm am aelodaeth yn yr Undeb Ewropeaidd. Trefnodd yr Eglwys yng Nghymru dri chyfarfod cyhoeddus ar ran Cytûn cyn y bleidlais. Ers Mehefin 23, mae aelod eglwysi wedi gofyn i Cytun gyd-lynu ymateb Cristnogol i'r canlyniad ac i'r

materion godwyd gan yr ymgyrch, a mae'r gwaith hwnnw yn datblygu dros yr haf. Mae Cytûn yn gweithio gyda'n partneriaid ecwmenaidd ar draws y Deyrnas Unedig ac Ewrop i sicrhau fod llais Gristnogol i'w chlywed yn y trafodaethau am ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, yn ystod y trafodaethau am Fil Cymru sydd gerbron San Steffan ar hyn o bryd, ac wrth i newidiadau eraill ddatblygu yn ein cyfansoddiad a'n gwleidyddiaeth. Mae'r newidiadau hyn yn cynnig heriau a chyfleoedd i ni fel eglwysi, a'n nod yw helpu ein haelodau i ymateb yn gadarnhaol ac yn ddeallus i'r hyn sydd o'n blaenau.

Cadwch lygad ar ein gwefan neu tanysgrifiwch i'n bwletin rheolaidd (trwy e-bostio gethin@cytun.org.uk) er mwyn clywed y diweddaraf am yr holl ddatblygiadau hyn.

Eisteddfod yr Urdd

Roedd pabell yr Ysgolion Sul yn lliwgar, yn llawn bwlwm ac yn estyn y croeso cynhesaf i'r cannoedd a wnaeth ddod i ymweld ac i fwynhau'r gweithgareddau dros chwe diwrnod yr ŵyl.

O'r funud gyntaf ar fore Llun, wedi i'r stondin agor, roedde ni'n gallu gweld y byddai "helpa sticer a stori y Beibl Byw" yn destun diddordeb a

(Chwith) Agor y pumed Cynulliad Cenedlaethol fis Mehefin
(Dde) Criw y Beibl Byw yn cael eu cyfweld ar gyfer rhaglen deledu.

sgwrs dros y maes ac roedd yn sicr yn gysyniad a weithiodd yn wych.

Er mwyn cwblhau'r helpa, roedd unigolion yn crwydro'r maes wedi eu gwisgo fel cymeriad o un o straeon y Beibl - ac yn rhoi sticeri ar gardiau roedd y plant a'r bobl ifanc wedi'u cael o'r stondin.

Llongyfarchiadau a diolch yn fawr i'r holl wirfoddolwyr a helpodd i wneud Stodin "Ysgolion Sul enwadau Cytûn" yn llwyddiant eto eleni.

Gobeithio y cawn ni ail-greu'r cynnwrf a gweithgareddau tebyg i hyn eto yn Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái fydd yn cael ei chynnal rhwng 29 Mai - 3 Mehefin 2017.

Croeso i Gymru

Cwrs preswyl sy'n cynnig hyfforddiant i Weinidogion sy'n dod i Gymru am y tro cyntaf.

Mercher 5ed tan Gwener 7fed o Hydref 2016
yng Nghanolfan San Mihangel, Llandaf, Caerdydd

Mae modd bod yn rhan o'r cwrs trwy lenwi'r ffurflen isod a'i hanfon yn ôl cyn **Ddydd Gwener Medi y 9fed 2016.**

Ewch i www.cytun.org.uk i lwytho'r ffurflen gais.



Un o'r fideos darparwyd gan Byddin yr Iachawdwriaeth ar gyfer Etholiadau 2016, sydd ar gael i wyllo o hyd ar wefan Cytûn: www.cytun.org.uk/etholiadau2016